**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1470
Ein cyf/Our ref JH-/10227/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

13 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â deiseb P-06-1470, sy'n galw am gael gwared ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r pryderon a godwyd ac i dynnu sylw at rôl hanfodol y Cynllun wrth greu Cymru fwy cydlynol a chroesawgar.

Mae'r ddeiseb yn honni mai dim ond 500 o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mewn gwirionedd, roedd yr ymateb yn llawer helaethach, ac yn tynnu ar dystiolaeth ac adborth gan ystod eang o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, ac unigolion sydd wedi profi effaith hiliaeth yn uniongyrchol.

Mae'r ddeiseb yn awgrymu y gallai'r Cynllun gael effaith negyddol ar y gymuned ehangach neu y gall arwain at arwain at wahaniaethu yn erbyn y boblogaeth fwyafrifol. I'r gwrthwyneb, nod y cynllun yw creu Cymru decach a mwy cynhwysol, lle mae gan bawb, waeth beth fo'u hil neu ethnigrwydd, gyfleoedd cyfartal. Mae'r cyfeiriad at "symud y tu hwnt i ddull lliwddall o weithredu" yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod y gall trin pawb yr un fath, weithiau anwybyddu'r heriau unigryw sy'n wynebu pobl o gefndir ethnig leiafrifol. Trwy deilwra gwasanaethau a pholisïau i ddiwallu anghenion amrywiol, ein nod yw gwella canlyniadau i bawb.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn cryfhau ein cymunedau, gan eu gwneud yn fwy gwydn a rhoi cyfle i bawb gyfrannu a llwyddo. Mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael â phob math o hiliaeth, gan gynnwys gwrth-Semitiaeth ac Islamoffobia, gan sicrhau nad oes unrhyw gymuned yn cael ei gadael ar ôl ac y gall pob person yng Nghymru fyw mewn cymdeithas sy'n rhydd o ragfarn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'n gynllun angenrheidiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb systemig a chreu Cymru decach i bawb. Nid yw'r camsyniadau yn y ddeiseb yn adlewyrchu gwir weledigaeth, pwrpas a gwerthoedd y Cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i bawb yng Nghymru a bydd yn parhau i ymgysylltu â chymunedau i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu eu profiadau a'u hanghenion.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip